Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Trefniadau adran 33 - Partneriaeth TGCh

# Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

**Blwyddyn archwilio:** 2014

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 123A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Powys a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Andrew Doughton, Clare James a Justine Morgan.

# Cynnwys

Mae partneriaeth TGCh Powys wedi gwella cadernid y gwasanaeth ac wedi lleihau'r risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith integredig.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cefndir | 4 |
| Mae partneriaeth TGCh Powys wedi gwella cadernid y gwasanaeth ac wedi lleihau'r risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith integredig | 5 |
| Mae'r bartneriaeth TGCh adran 33 wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt ar ei chyfer, ond mae'r sefyllfa yn fwy heriol lle bo'r gwelliannau yn dibynnu ar drydydd parti | 5 |
| Mae'r bartneriaeth TGCh wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau y cytunir arnynt yn flynyddol ac i gefnogi gwelliant parhaus | 8 |
| Ceir dulliau gweithredu da ar gyfer datblygu strategaethau TGCh, ond erys cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gefnogi effeithlonrwydd gwasanaethau yn ehangach | 12 |
| Argymhellion | 15 |
| Atodiadau | |
| Cynllun gweithredu | 17 |
| Gwersi a ddysgwyd | 20 |

# Adroddiad cryno

## Cefndir

**1.** Ym mis Gorffennaf 2012, ymrwymodd Cyngor Sir Powys (y Cyngor) a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (y Bwrdd Iechyd) i bartneriaeth ffurfiol (y partneriaid) i ddarparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gan dîm ar y cyd a sefydlwyd drwy integreiddio timau TGCh y ddau sefydliad. Defnyddiodd y partneriaid gytundeb adran 33[1] fel ffordd o greu cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol. Mae'r cytundeb adran 33 yn darparu sail ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth y mae cynlluniau unigol y bartneriaeth yn rhan ohoni. Y cynllun cyntaf a ddaeth yn rhan o'r cytundeb oedd y cynllun TGCh, a ddaeth yn weithredol o 1 Gorffennaf 2012.

**2.** Datblygodd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd y cytundeb adran 33 gyda'r bwriad y byddai'n para am o leiaf bedair blynedd (hyd at 2016) gydag adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal er mwyn gallu ei ddiwygio fel y bo'n briodol. Bydd y cytundeb yn parhau'n fytholbarhaus ar ôl y cyfnod cychwynnol hyd nes y bydd un o'r partneriaid yn gweithredu'r cymalau terfynu. Ategir y cytundeb cyffredinol gan gyfres o atodlenni sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob gwasanaeth (cynllun) neu swyddogaeth unigol sy'n ymrwymo i'r cytundeb. Mae'r atodlenni hyn yn nodi'r canlynol:

- Atodlen 1 - Disgrifiad o'r gwasanaeth neu'r swyddogaeth i'w gyfuno/chyfuno gan gynnwys ei nodau a'i (h)amcanion;
- Atodlen 2 - Swyddogaethau'r Partneriaid;
- Atodlen 3 - Cwmpas y gwasanaethau i'w darparu;
- Atodlen 4 - Cyfraniadau ariannol a'r defnydd gan y naill barti neu'r llall;
- Atodlen 5 - Gofynion adnoddau dynol o dan y cytundeb; ac
- Atodlen 6 - Llywodraethu'r cytundeb.

**3.** Y Cyngor sy'n gyfrifol am y gwasanaeth TGCh ar y cyd a'r cytundeb. Mae rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor yn berthnasol. Felly, gall y gwasanaeth ar y cyd adennill TAW[2] yn ogystal â defnyddio hyblygrwyddau ariannol eraill sydd ar gael i gyrff llywodraeth leol.

**4.** Nid ydym wedi adolygu'r cytundeb adran 33 a fabwysiadwyd yn 2012 nac, yn benodol, effeithiolrwydd y bartneriaeth TGCh ar y cyd yn y gorffennol nac wedi cyflwyno adroddiad arno. Cynhwyswyd yr adolygiad hwn yn ein rhaglen reoleiddiol yn y Cyngor ac yn y Bwrdd Iechyd. Diben yr adolygiad yw canfod y canlynol:

- a yw'r trefniant TGCh ar y cyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau gwasanaeth gweithredol a'i gynlluniau blynyddol fel y'u nodwyd adeg sefydlu;
- a yw'r gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd, a oes ganddo drefniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol, ac a yw'n ariannol gadarn; ac

---

[1] Cytundeb adran 33 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (2006) Rhan 3, Adran 33 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/42/pdfs/ukpga_20060042_en.pdf
[2] Llawlyfr treth ar werth: http://www.hmrc.gov.uk/manuals/vatgpbmanual/VATGPB4000.htm

- a oes cynlluniau tymor canolig clir ar waith sy'n helpu i gyflawni nodau strategol a nodau gwasanaeth ehangach y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

**5.** Nid yw'r gwaith hwn wedi adolygu unrhyw reolaethau na mesurau diogelu TG manwl.

**6.** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau adolygiad integredig unigol o drefniadau cydweithio'r cytundeb adran 33 mewn perthynas â TGCh. Cynhaliwyd y gwaith hwn yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2014 a chyflwynwyd adroddiad arno ym mis Chwefror 2015. Nodir ein casgliadau yn y penawdau canlynol.

# Mae partneriaeth TGCh Powys wedi gwella gwydnwch y gwasanaeth ac wedi lleihau'r risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith integredig

## Mae'r bartneriaeth TGCh adran 33 wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt ar ei chyfer, ond mae'r sefyllfa yn fwy heriol lle bo'r gwelliannau yn dibynnu ar drydydd parti

### Cytunwyd ar nodau busnes y bartneriaeth Adran 33 ac fe'u dyluniwyd yn effeithiol i helpu i roi ffocws i waith y bartneriaeth newydd

**7.** Aeth Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd ati i ddatblygu a chytuno ar y nodau a'r amcanion ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynllun TGCh a'u nodi'n glir, fel sy'n ofynnol yn y cytundeb adran 33 (Arddangosyn 1). Roedd nodau ac amcanion y flwyddyn gychwynnol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sylfeini ar gyfer model gwasanaeth TGCh integredig. Roedd hyn yn briodol, yn realistig ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y byddai trefniadau'r bartneriaeth a'r model gwasanaeth integredig newydd yn diwallu anghenion y ddau sefydliad.

Arddangosyn 1 - Amcanion blwyddyn 1 cynllun TGCh adran 33

| Amcanion y bartneriaeth ar gyfer 2012 |
|---|
| Trosglwyddo staff i'r trefniadau gweithio newydd o fewn 12 mis i ddechrau'r cytundeb. |
| Creu strwythur tîm integredig o fewn 12 mis i ddechrau'r cytundeb, yn unol â'r prosiect Defnyddio Adnoddau TGCh. |
| Adolygu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu TGCh o fewn 12 mis i ddechrau'r cytundeb. |
| Caiff cyfres unigol gytûn o fesurau rhaglen a gwasanaeth eu datblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb. |
| Cytuno ar gynllun a dechrau cyd-leoli staff, lle y bo angen, o fewn 12 mis i ddechrau'r cytundeb. |

| Amcanion y bartneriaeth ar gyfer 2012 |
| --- |
| Creu pwynt cyswllt a phroses unigol ar gyfer cymorth TGCh yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb. |
| Adolygu'r prosesau ar gyfer caffael TGCh. |
| Caiff cyfres gytûn o weithdrefnau gweithredol ei datblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y cytundeb er mwyn darparu fframwaith cadarn ar gyfer arferion gwaith a darparu gwasanaethau. |
| Creu cynllun meithrin sgiliau ar y cyd o fewn 12 mis i ddechrau'r cytundeb, yn unol â'r prosiect Defnyddio Adnoddau TGCh. |
| Cynnig cynllun a phroses adnewyddu cyfrifiaduron personol ar gyfer Bwrdd Addysgu Iechyd Powys erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y cytundeb. |
| Cytuno ar nodau ac amcanion ar gyfer blwyddyn 2 a 3 y cytundeb erbyn diwedd blwyddyn gyntaf y cytundeb. |

*Ffynhonnell: Amcanion cynllun adran 33 partneriaeth TGCh Powys*

**8.** Yn ystod blwyddyn 2, roedd nodau ac amcanion y bartneriaeth TGCh yn canolbwyntio ar ddau brif faes:

- rhoi'r newidiadau a gynlluniwyd ac a ddatblygwyd yn ystod blwyddyn 1 ar waith; a
- dechrau gweithredu prosiectau seilwaith technoleg megis gwasanaethau e-bost wedi'u cynnal yn genedlaethol, prosiect adnewyddu technoleg a gwaith i adleoli cyfleusterau ystafelloedd cyfrifiaduron Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

**9.** Roedd diwyg y nodau a'r amcanion dros y ddwy flynedd gyntaf yn ddigon clir, heriol a chyflawnadwy i alluogi'r bartneriaeth TGCh i ddarparu a gwella gwasanaethau yn erbyn disgwyliadau cyffredin a chytûn gan y ddau bartner.

## Llwyddodd y bartneriaeth TGCh i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y rhan fwyaf o'i hamcanion ac mae wedi lleihau'r risg gyffredinol i'r gwasanaeth ond cafodd fwy o anawsterau wrth gyflawni newidiadau a oedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y bartneriaeth TGCh ac wrth integreiddio timau

**10.** Mae'r bartneriaeth TGCh wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt i raddau helaeth a cheir ffocws cryf ar welliant a pherfformiad o du'r rheolwyr. Er mwyn sefydlu gwasanaeth integredig, rhaid ystyried nid yn unig y broses, y polisïau a'r dulliau gweithredu y mae angen eu cyflwyno, ond hefyd y materion mwy sensitif a chymhleth sy'n ymwneud â staffio a newid.

**11.** Er bod y partneriaid yn ymrwymedig i'r broses integreiddio hon, roedd rhai amheuon o hyd o ran croes-gymorthdaliadau ar gyfer gwasanaethau, risgiau o ran lleihau ansawdd gwasanaethau a chysoni telerau ac amodau staff yn ystod y cyfnod hwn. Er iddi gymryd amser i ymsefydlu, llwyddodd y bartneriaeth TGCh i gyflawni'r amcanion i raddau helaeth, a llwyddodd i reoli llawer o'r risgiau 'newid' mwy sensitif.

12. Cyflawnodd y bartneriaeth TGCh naw allan o'r 11 o amcanion yn ystod blwyddyn 1. Ni chyflawnodd y gwasanaeth ddau o'r amcanion am y rhesymau a nodir yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2 - Amcanion blwyddyn 1 cynllun TGCh adran 33 nas cyflawnwyd

| Nod blwyddyn 1 | Rheswm dros beidio â chyflawni'r nod o fewn y flwyddyn fwriadedig |
|---|---|
| **Creu pwynt cyswllt unigol** | Ni ddarparodd y rhwydwaith cenedlaethol lwyfan ar gyfer datrysiad meddalwedd desg gymorth integredig unigol.<br>Er bod technoleg yn galluogi gwelliant, mae rhoi pwynt cyswllt unigol ar waith yn enghraifft lle mai technoleg oedd y rheswm pam na lwyddwyd i gyflawni'r amcan. Mae Byrddau Iechyd a Chynghorau yn defnyddio rhwydwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r enw Cyd-gasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA). Sefydlwyd y rhwydwaith hwn mewn ffordd sy'n golygu y gellir cyfleu data yn effeithiol o fewn sectorau'r llywodraeth, ond nid oedd yn hwyluso trefniadau ar gyfer cyfleu data ar draws sectorau. O ganlyniad, roedd yn anodd gweithredu pwynt cyswllt unigol, gan nad oedd yn bosibl creu system ddesg gymorth unigol a allai weithredu ar draws rhwydweithiau Cyngor Powys a'r Bwrdd Iechyd. |
| **Creu strwythur tîm integredig** | Gofynnwyd i'r bartneriaeth TGCh integreiddio strwythur y tîm. Ni chyflawnodd hyn yn ystod blwyddyn 1 ond roedd wedi cyflawni'r nod hwn yn rhannol erbyn mis Hydref 2014.<br>Rydym ar ddeall mai'r ddau brif rwystr oedd:<br>• technolegol fel y nodir uchod (h.y. dim desg gymorth integredig unigol); a<br>• gwahaniaethau o ran telerau ac amodau cyflogeion a'i gwnaeth yn anodd integreiddio'r tîm yn llawn.<br>Mae'r bartneriaeth TGCh wedi llwyddo i greu tîm rheoli integredig cryfach sy'n canolbwyntio ar fusnes a bu gallu rheolwyr TG yn rhan annatod o lwyddiant y trefniant adran 33 penodol hwn. Mae'r bartneriaeth TGCh hefyd wedi galluogi dulliau gweithredu integredig o ran gweithio ar brosiectau er mwyn helpu i ddatblygu datrysiadau integredig i broblemau cyffredin. |

13. Llwyddodd y bartneriaeth TGCh hefyd i gyflawni amcanion blwyddyn 2 i raddau helaeth. Er nad yw methu â chyflawni amcanion yn ddymunol, ymddengys fod y bartneriaeth yn ymrwymedig o hyd i'r rhaglen waith gan barhau â'r amcanion o flwyddyn i flwyddyn.

14. Ni ddynododd amcanion y flwyddyn gyntaf unrhyw amcanion ariannol ffurfiol, er bod gofyniad clir i bennu cyllidebau blynyddol a disgwyliad y dylid rheoli'r cyllidebau. Yn ymarferol, mae'r bartneriaeth wedi datblygu ac wedi rheoli'r cyllidebau ariannol a gwariant ariannol yn effeithiol er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni ei nodau ariannol yn ystod y flwyddyn gyntaf ac mewn blynyddoedd dilynol.

**15.** Mae'r bartneriaeth TGCh hefyd wedi rhoi cyfle i'r ddau bartner leihau risgiau. Er enghraifft, mae'r Cyngor bellach yn defnyddio gwasanaeth e-bost Microsoft Exchange Cymru gyfan sydd wedi lleihau'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chynnal llwyfan gweinydd e-bost yn lleol. Mae'r bartneriaeth TGCh hefyd wedi gweithio i leihau'r risgiau o ran dibynadwyedd a datgysylltu sy'n gysylltiedig â gweinyddion y Cyngor. Mae gwasanaeth TGCh y Bwrdd Iechyd wedi adleoli o unedau 'portakabin' gwael iawn wrth ymyl y Plasty ym Mronllys i gyfleusterau priodol ar brif safle Ysbyty Bronllys.

## Mae'r bartneriaeth TGCh wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau y cytunir arnynt yn flynyddol ac i gefnogi gwelliant parhaus

### Ceir trefniadau effeithiol a theg ar gyfer pennu cyllidebau a rheoli ariannol ar gyfer cronfeydd cyfunol

**16.** Mae'r bartneriaeth TGCh yn gweithredu dau ddull ariannu, sef cronfeydd cyfunol a chronfeydd arweiniol. Mae'r dull gweithredu hwn yn caniatáu i'r sefydliadau ariannu'r bartneriaeth TGCh gyda'i gilydd lle y bydd buddiannau i'r ddwy ochr a hefyd i ariannu gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r bartneriaeth mewn modd hyblyg:

- Cronfeydd sy'n benodol ar gyfer y bartneriaeth yn unig yw cronfeydd cyfunol lle bydd y ddau sefydliad yn cyfrannu cyfran o'r cyllid. Caiff y cronfeydd hyn eu cyfuno'n un gronfa a gaiff wedyn ei defnyddio i ariannu gweithgareddau'r bartneriaeth TGCh. Cyfanswm y cronfeydd cyfunol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yw £2.01 miliwn. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn cyfrannu tua dwy ran o dair o'r gronfa gyfunol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu tua thraean.
- Mae cronfeydd arweiniol yn ymwneud ag arian sydd wedi'i neilltuo i sefydliad unigol a dim ond y sefydliad hwnnw fydd yn cael budd ohono.

**17.** Ceir proses flynyddol glir ar gyfer pennu cyllidebau cronfeydd cyfunol, ac mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn deall eu hymrwymiad ariannol, a bod y bartneriaeth TGCh yn deall y gofynion sydd arni o ran rheoli gwariant ariannol. Er bod y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn cyfrannu gwahanol gyfrannau o'r cronfeydd, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod croes-gymhorthdal lle mae un sefydliad yn ariannu cyfran uwch na'r gwasanaeth cyfatebol y mae'n ei gael. Ar hyn o bryd, gan fod y timau gweithredol yn parhau'n annibynnol i raddau helaeth, ceir llinell gymharol glir o ran sut y caiff adnoddau staff eu hariannu, eu defnyddio a'u dosbarthu. Fodd bynnag, mae buddiannau effeithlonrwydd gweithredol a chadernid yn deillio o integreiddio timau gweithrediadau TG ymhellach ac mae hyn yn briodol, ond gall hyn hefyd ei gwneud hi'n anos deall y mewnbynnau ariannol a'r allbynnau o ran cynhyrchiant fesul sefydliad yn y dyfodol.

**18.** Ceir dull gweithredu effeithiol o reoli ariannol a dengys cofnodion fod gwariant wedi'i reoli'n dda ers creu'r bartneriaeth TGCh. Mae'r trefniant adran 33 wedi creu proses glir ar gyfer pennu cyllidebau, eu hadolygu a'u rheoli a disgwyliad clir fod yn rhaid i'r bartneriaeth TGCh sicrhau rheolaeth ariannol dros ei chyllid a'i rheoli. Mae gan y bartneriaeth TGCh ddull rheoli ariannol tryloyw sy'n helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng partneriaid. Ceir proses glir o ran goruchwyliaeth ariannol; os ceir eithriadau lle y mae angen gwariant ychwanegol, yna ceir proses ar gyfer sicrhau y caiff cyllid ychwanegol ei gymeradwyo, er enghraifft, wrth adnewyddu cyfarpar TG diffygiol.

**19.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor, gan mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am y gyllideb gyfunol, baratoi cyfres o gyfrifon ar ffurf memorandwm bob blwyddyn, y mae angen eu harchwilio gan yr archwilydd allanol.  Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno memorandwm o'r cyfrifon i'r archwilwyr allanol hyd yn hyn. Rhaid i'r Cyngor baratoi memorandwm o'r cyfrifon ar gyfer y gyllideb gyfunol bob blwyddyn a sicrhau bod yr archwilydd penodedig yn cynnal archwiliad ohonynt bob blwyddyn erbyn y dyddiad gofynnol.

Mae adnoddau'r gwasanaeth TGCh i ddiwallu anghenion cyfredol yn gyfyngedig ac mae trefniadau rheoli'r bartneriaeth wedi'u hintegreiddio'n effeithiol, ond gellid gwneud mwy i integreiddio timau gwasanaeth gweithredol er mwyn creu arbedion ac atgyfnerthu'r tîm TGCh ymhellach

**20.** Mae'r bartneriaeth TGCh yn gweithredu o dan swyddogaeth rheoli integredig unigol ar hyn o bryd, sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth i wasanaeth TGCh cyfun. Ceir strwythur sefydliadol clir er bod y timau TG gweithredol yn parhau wedi'u rhannu yn ôl y sefydliad.

**21.** Mae'r bartneriaeth TGCh wedi nodi buddiannau busnes yn sgîl integreiddio'r timau ymhellach er mwyn creu cadernid ychwanegol ac er mwyn sicrhau arbedion maint. Mae'r bartneriaeth TGCh yn bwriadu cwblhau'r broses integreiddio yn ystod y 12 mis nesaf. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae technoleg yn peri rhywfaint o rwystr (dim system gymorth desg gymorth a rennir/gyffredin), felly hefyd telerau ac amodau cyflogeion y bydd angen eu hunioni, proses sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd. Bydd y buddiannau ychwanegol a nodwyd a'r cyfleoedd i staff draws-sgilio yn helpu i sicrhau y bydd gwasanaeth TGCh cwbl integredig yn darparu model cryf yn y dyfodol.

**22.** Adolygodd y gwasanaeth TGCh ei adnoddau o ran y gweithlu. Yn y Cyngor, mae'r gwasanaeth TGCh wedi ailstrwythuro ei weithlu TG, yn enwedig staff TG sy'n gweithio o fewn gwasanaethau datganoledig megis gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae'r gwasanaeth TGCh wedi canoli nifer o'r rolau datganoledig hyn o fewn y Cyngor ac wrth wneud hynny, gwnaeth rai arbedion ychwanegol ar gostau cyffredinol y gweithlu TG, a fydd yn effeithio ar gronfeydd arweiniol y Cyngor. Mae arbedion gweithlu TGCh y Bwrdd Iechyd yn gyfyngedig gan fod yr adran eisoes yn gweithredu o fewn adnoddau caeth.

**23.** Mae cynnal setiau sgiliau technoleg yn anodd i wasanaethau TGCh yn gyffredinol ac yn fwy byth mewn ardaloedd gwledig. Mae'r bartneriaeth TGCh yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau TGCh a thraws-sgilio, ac mae'n asesu sgiliau ei haelodau o staff na chânt eu defnyddio ar hyn o bryd i ddarparu timau TGCh cadarnach sy'n meddu ar lefelau sgiliau gwell. Bydd angen ffocws parhaus ar y maes hwn er mwyn sicrhau bod y gweithlu TGCh yn meddu ar sgiliau priodol i ymateb i heriau yn y dyfodol. Yn gynyddol, mae'r setiau sgiliau TGCh sydd eu hangen yn y sector cyhoeddus yn cynnwys dadansoddi busnes/sgiliau ymgynghori, integreiddio systemau, rhwydweithio a chyfathrebu, a datblygu amgylcheddau gwe deinamig/rhyngweithiol. Bydd angen i'r bartneriaeth TGCh asesu sgiliau ei gweithlu yn erbyn ei gofynion o ran amcanion strategol.

## Ceir trefniadau effeithiol a phriodol ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r bartneriaeth TGCh adran 33.

**24.** Mae trefniadau clir wedi'u nodi yn atodlenni cynllun TGCh adran 33 ar gyfer llywodraethu'r bartneriaeth TGCh. Mae Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn gyfrifol am reoli trefniadau'r bartneriaeth TGCh a sefydlwyd o dan y cytundeb adran 33, gan olrhain y broses o gyflawni nodau ac amcanion cynlluniau unigol y bartneriaeth o fewn adnoddau diffiniedig a chytuno ar unrhyw newid i gwmpas y bartneriaeth.

**25.** Mae'r atodlen ar lywodraethu (atodlen 6) yn sefydlu Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd. Mae aelodau Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn cynnwys Prif Weithredwr y Cyngor, Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd neu ddirprwy penodedig, aelod o Gabinet y Cyngor ac aelod Gweithredol o'r Bwrdd Iechyd.

**26.** Mae gan Fwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd rôl ddiffiniedig, sef goruchwylio'r broses o weithredu'r cytundeb, sy'n cynnwys y canlynol, ond nad yw'n gyfyngedig iddo:

- cadarnhau cyllid a chytuno arno;
- derbyn adroddiadau ar y broses o weithredu'r cytundeb;
- cytuno ar nodau ac atodlenni cynllun y bartneriaeth TGCh; ac
- adolygu cyflawniadau a chynnydd yn erbyn y nodau a'r amcanion.

**27.** Mae Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn gyfrifol am sicrhau bod y bartneriaeth TGCh yn bodloni gofynion y cytundeb adran 33. Fodd bynnag, nid yw Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn gyfrifol am roi arweinyddiaeth na chyfeiriad i'r partneriaethau. Mae hyn yn bwysig mewn perthynas â datblygu gwasanaethau integredig newydd o dan fframwaith adran 33. Yn syml, adran 33 yw'r fframwaith neu'r system gyfreithiol sy'n ategu trefniadau ar gyfer cronfeydd cyfunol a gweithio o fewn partneriaethau integredig. Mae Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn sicrhau trylwyrder a phroses fel bod partneriaeth integredig ar y trywydd cywir i lwyddo, ond dylid pennu'r arweinyddiaeth, y cyfeiriad a'r amcanion ar lefel y bwrdd gwasanaeth lleol a'r sefydliadau o hyd.

**28.** Rydym wedi arsylwi effeithiolrwydd Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd, wedi adolygu cwmpas a swyddogaeth y Bwrdd ac wedi trafod rôl y Bwrdd yn ystod ein cyfweliadau. Noda'r gwaith hwn, at ddiben goruchwylio'r bartneriaeth TGCh, fod Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd yn darparu swyddogaeth llywodraethu effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r canlynol yn glir:

- Sut mae sicrwydd yn llifo o Fwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd i swyddogaethau llywodraethu ffurfiol pwyllgorau'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.
- P'un a oes angen diffinio'r cylch gorchwyl yn gliriach er mwyn cynnwys partneriaethau gwasanaeth allanol mwy cymhleth. Er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau a gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer gwasanaethau integredig rheng flaen, megis nyrsio a gofal cymdeithasol integredig.
- P'un a yw amseroldeb papurau yn effeithio ar allu aelodau i baratoi ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd, ac os felly, p'un a yw hyn yn effeithio ar ansawdd y broses o graffu ar bartneriaethau Adran 33 a'u herio.

**29.** Er nad ymddengys fod hyn yn broblem i'r cynllun TGCh, gall yr eglurder hwn fod yn gynyddol bwysig wrth i'r ddau sefydliad symud tuag at drefniadau partneriaeth ffurfiol yn seiliedig ar wasanaethau. Rydym ar ddeall bod y partneriaid wrthi'n dechrau adolygiad o drefniadau presennol Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd.

Mae metrigau perfformiad rhesymol ar waith ond mae angen gwneud mwy bellach i ailddylunio mesurau perfformiad i gynnwys safonau gwasanaeth diwygiedig, nodau gweithredol, yr effaith ar brosiectau a defnyddio TGCh fel galluogwr ar gyfer newidiadau ehangach i wasanaethau.

**30.** Roedd gan y bartneriaeth TGCh a sefydlwyd yn wreiddiol fesurau perfformiad gwahanol ar gyfer y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor. Roedd mesurau'r Cyngor yn seiliedig ar gyfuniad o ddangosyddion perfformiad allweddol Socitm[3] a hefyd fesurau lleol a oedd yn ymwneud â chadernid (amser cysylltu/datgysylltu) seilwaith allweddol. Nid oedd gan y Bwrdd Iechyd fesurau perfformiad TGCh ystyrlon yn 2012.

**31.** Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae metrigau perfformiad TGCh y Cyngor wedi parhau'n sefydlog i raddau helaeth, a chyflwynwyd rhai mesurau perfformiad gweithredol sylfaenol ym maes TGCh yn raddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Lle y ceir pwysau ar berfformiad, nodwyd adnoddau ychwanegol i helpu i ymdrin â'r materion hyn.

**32.** Mae'r bartneriaeth TGCh yn cydnabod bod angen i fesurau perfformiad y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd esblygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol, ac er mwyn iddynt roi trosolwg o berfformiad gweithredol ym maes TG yn ogystal â rhoi syniad o'r cynnydd cyffredinol wrth roi prosiectau allweddol ar waith.

[3] Mae Cymdeithas y Rheolwyr TG (Socitm) yn darparu gwasanaeth meincnodi sy'n cymharu metrigau TGCh gweithredol allweddol ar draws safleoedd sy'n cymryd rhan. Mae llawer o'r mesurau hyn wedi dod yn adnodd safonol ar gyfer gwerthuso perfformiad o fewn adrannau TGCh cynghorau ledled y DU. http://www.socitm.net/research/benchmarking/ict-service/about-benchmarking-ict-service

**33.** O ystyried y fantais sy'n gysylltiedig â thîm gweithredol TGCh integredig, byddai hefyd o fudd pe cytunid ar safonau gwasanaeth cyffredin. Ar hyn o bryd, caiff llwyth gwaith desg gymorth y Cyngor ei flaenoriaethu gan ddefnyddio safonau [4]ITIL ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu fwy ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

**34.** O ystyried bod safonau diwydiant yn bodoli ar gyfer rheoli desgiau cymorth, byddai o fudd pe bai'r bartneriaeth TGCh yn cytuno ar safonau cyffredin y gallai tîm integredig anelu at eu cyrraedd.

## Ceir dulliau gweithredu da ar gyfer datblygu strategaethau TGCh, ond erys cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gefnogi effeithlonrwydd gwasanaethau ehangach

### Ar y cyfan, mae'r bartneriaeth TGCh wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn ei strategaeth ar gyfer 2011 ac mae wedi datblygu gwasanaeth sefydlog

**35.** Darparodd strategaeth 2011-14 ddadansoddiad cyffredinol da a ystyriodd gyfleoedd lleol a chenedlaethol i wella'r gwasanaeth ac i sicrhau effeithlonrwydd. Cynhaliwyd yr asesiad hwn o fewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r Cyngor.

**36.** Strategaeth 2011 oedd y strategaeth TGCh integredig traws-sector leol gyntaf yng Nghymru. Llwyddodd y strategaeth i gau'r bwlch rhwng y ddau sefydliad unigol blaenorol yn 2011 a disgrifiodd ei nodau ar gyfer gwasanaeth TGCh integredig. Roedd y strategaeth yn cynnwys nodau seilwaith TGCh yn ogystal â rhai prosiectau i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg o fewn gwasanaethau.

**37.** Bob blwyddyn, mae'r gwasanaeth TGCh ar y cyd yn cytuno ar gynllun gwaith blynyddol â phartneriaid. Roedd cyswllt amlwg rhwng strategaeth TGCh 2011-2014 sy'n nodi cyfeiriad tymor hwy a'r nodau a bennir yn flynyddol o fewn amcanion y cynllun TGCh adran 33. Mae hyn wedi helpu i sicrhau parhad rhwng y cyfeiriad gwreiddiol a nodwyd yn y strategaeth a chynlluniau blynyddol.

**38.** Mae'r dull hwn o bennu'r cyfeiriad a'r cynlluniau busnes blynyddol yn creu dealltwriaeth glir o flaenoriaethau, gofynion o ran adnoddau a buddsoddi ac yn darparu mesur lefel uchel ar gyfer olrhain cynnydd dros amser yn erbyn cynlluniau. Yn ystod y tair blynedd gyntaf, mae'r cyfeiriad strategol wedi helpu i greu gwasanaeth TGCh integredig sefydlog, sydd wedi dangos gwelliant a llai o risg.

[4] Cyfres o arferion rheoli gwasanaethau TG yw ITIL (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel y Llyfrgell Seilwaith Technoleg Gwybodaeth) sy'n canolbwyntio ar gysoni gwasanaethau TG ag anghenion busnes.
https://www.axelos.com/Corporate/media/Files/Brochures/ITIL_Product_Brochure_Conference_Version_v1.pdf

Mae'r bartneriaeth TGCh wrthi'n datblygu strategaeth TGCh 2015-2018 a bydd angen iddi ganolbwyntio ar y broses o ddatblygu technoleg fel galluogwr o ran moderneiddio gwasanaethau ac o ran sicrhau arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod i'r ddau sefydliad.

**39.** Mae pwysau ariannol sylweddol ar y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ac nid oes unrhyw awgrym y bydd y pwysau hyn yn lleihau yn ystod y pedair blynedd nesaf. Mae adroddiad diweddar Williams yn argymell y dylid uno'r ddau gorff yn llawn, ac, os gweithredir yr argymhelliad hwn, byddai'n arwain at gryn gyfleoedd yn ogystal â heriau i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

**40.** Gall systemau technoleg a gwybodaeth greu arbedion ariannol sylweddol, ond dim ond os cânt eu cynllunio a'u gweithredu'n effeithiol fel rhan o raglen effeithlonrwydd ehangach, a dim ond os cymerir camau gweithredu i leihau costau yn sgîl y mesurau effeithlonrwydd a gymerwyd.

**41.** Mae angen i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion ariannol drwy'r sefydliad cyfan. O ystyried bod elfen fawr o gostau darparu unrhyw wasanaethau lleol yn ymwneud ag adnoddau staff, mae'n amlwg mai dyma lle y ceir cyfleoedd ariannol. Gellid cyflawni enghreifftiau o arbedion ariannol sy'n gysylltiedig â TGCh drwy'r canlynol:

- Rhoi systemau ar waith sy'n golygu y gellir lleoli ac olrhain staff iechyd a staff y cyngor yn well yn y maes, er mwyn sicrhau y caiff staff eu dyrannu i swyddi yn y ffordd fwyaf effeithlon (er enghraifft, staff gwasanaethau cymdeithasol a staff iechyd cymunedol).
- Systemau sy'n cefnogi trefniadau gweithio integredig ac amlddisgyblaeth, er mwyn sicrhau bod angen llai o aelodau o staff i ymgymryd ag ymweliadau cartref.
- Systemau rheoli stoc er mwyn lleihau achosion o wastraff a gorarchebu, sicrhau y caiff cyfarpar a roddir ar fenthyg ei ddychwelyd (e.e. storfeydd cyfarpar ar y cyd) a lleihau nifer yr ymweliadau dychwelyd i'r storfa i gasglu cydrannau/stoc (e.e. cynnal a chadw tai).
- Cynyddu'r defnydd o fideo-gynadledda, telefeddygaeth ac ati er mwyn lleihau treuliau teithio i gyfarfodydd, yr amser a gollir yn teithio a hefyd i sicrhau mynediad i sgiliau, gwybodaeth a gwasanaeth arbenigol a chyngor meddygol o leoliadau y tu allan i'r sir.
- Defnyddio technoleg i helpu pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Gallai hyn helpu i reoli'r galw cynyddol o ran anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth a lleihau twf costau yn y dyfodol, drwy osgoi lleoliadau gofal costus a chyfnodau costus yn yr ysbyty fel cleifion mewnol.

**42.** Mae'r bartneriaeth TGCh wrthi'n gofyn am sylwadau ar y ffordd y gellir gwella gwasanaethau a meysydd effeithlonrwydd gan wasanaethau'r Cyngor ac yn defnyddio hyn i ddatblygu ei strategaeth. Mae'r bartneriaeth TGCh hefyd yn ceisio sicrhau bod ei strategaeth yn gyson â Chynllun Powys yn Un. Fodd bynnag, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun tymor canolig integredig clir na chytûn eto ac felly mae'n anos i'r bartneriaeth TGCh greu cysylltiadau clir rhwng y strategaeth TGCh a'r strategaeth gorfforaethol ar gyfer iechyd. Mae'r strategaeth wrthi'n cael ei drafftio ar hyn o bryd, ac mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu amcanion y flwyddyn nesaf. Rhannwyd yr amcanion drafft ar gyfer 2015/16 yng nghyfarfod Bwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd ym mis Ionawr. Nodir y rhain isod:

- ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes ar y cyd ar gyfer teleffoni, a dechrau gweithredu'r opsiwn a ffefrir ar gyfer datrysiad teleffoni ar y cyd ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd;
- parhau i weithredu gallu trawsffiniol (darparwyr yn Lloegr) gyda NWIS;
- cefnogi rhaglenni ar y cyd cynllun 'Powys yn un' gyda TG lle y bo'n briodol, yn arbennig, rhoi'r system gwybodaeth genedlaethol am ofal cymunedol (CCIS) ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd;
- rhoi'r achos busnes ar y cyd ar waith er mwyn darparu gallu diogelu TGCh ar y cyd;
- adolygu a phennu cam nesaf y cynllun datblygu sgiliau ar y cyd;
- parhau â rhaglen NWIS yn arbennig Porth Clinigol Cymru a phennu'r cam gweithredu nesaf;
- adolygu Rhaglen treialon Powys Ddigidol; a
- pharhau i brosesu trefniadau integreiddio, yn arbennig gwasanaethau bwrdd gwaith, gwasanaethau rhwydwaith a gwasanaethau'r ganolfan ddata gyda'r bwriad o lunio un tîm cymorth. (cario ymlaen o flwyddyn tri)
- Cytuno ar nodau ac amcanion ar gyfer blwyddyn pump y cytundeb.

**43.** Fel y nodwyd yn flaenorol, gellir gwneud rhagor i roi ffocws i systemau TG a'u defnyddio i helpu i wella'r ffordd y caiff y gweithlu ei ddefnyddio ac effeithlonrwydd y gweithlu, ond mae angen i'r gwasanaethau rheng flaen, yn hytrach na'r gwasanaeth TGCh, arwain y gwaith hwn. Fodd bynnag, gall y bartneriaeth TGCh ddatblygu swyddogaeth ymgynghori TGCh busnes ymhellach er mwyn darparu cyngor ar dechnoleg ac arfarniadau o opsiynau sy'n dechnegol ymarferol ac sy'n arwain at fuddiannau busnes amlwg. Hyd yn hyn, mae'r bartneriaeth TGCh wedi gweithio o fewn dyraniad cyllid refeniw ariannol cymharol sefydlog. Mae hyn yn sicrhau rheolaeth dda dros gostau ac yn darparu sail ar gyfer darpariaeth gwasanaethau sefydlog. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fod yn barod i fuddsoddi mewn TGCh lle y bydd buddsoddiad strategol mewn TGCh yn cyflawni arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod mewn gwasanaethau eraill.

44. Ceir agenda genedlaethol ar gyfer TGCh ym maes iechyd, o dan arweiniad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Mae NWIS wedi llunio cynllun hirdymor y gall y bartneriaeth TGCh ei ddefnyddio i gynllunio'r mentrau cenedlaethol, y gallai'r Cyngor neu'r Bwrdd Iechyd ei ddefnyddio. Bydd angen i'r bartneriaeth weithio gyda NWIS i sicrhau bod NWIS yn deall anghenion technolegol strategol y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ac yn ymateb yn effeithiol iddynt.

45. Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd yn cynnig cyfle gwirioneddol i roi trefniadau gweithio integredig ar waith. Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor sicrhau bod digon o adnoddau Staff Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ar gael i roi'r system ar waith yn effeithiol. Fel rhan o'n gwaith arsylwi ar y broses o weithredu systemau gwasanaethau cymdeithasol Draig a Paris yn y gorffennol, a ddechreuodd ledled Cymru yn 2004, nodwyd achosion sylweddol o danamcangyfrif yr ymdrech a'r gwaith cynllunio sydd ei angen i roi system o'r fath ar waith. Byddai o fudd i'r ddau sefydliad pe baent yn cefnogi'r broses o roi'r system hon ar waith yn effeithiol fel rhan o'r broses ehangach o drawsnewid a moderneiddio llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Argymhellion

**Fframwaith perfformiad TGCh**

A1 Erbyn mis Hydref 2015, datblygu fframwaith perfformiad gwasanaeth TGCh diwygiedig er mwyn sicrhau y caiff y materion canlynol eu nodi, eu cofnodi, eu monitro ac y cyflwynir adroddiadau arnynt:

- cerrig milltir prosiectau a gyflawnir yn y tymor canolig;
- arbedion sy'n gysylltiedig â TGCh y gellir eu cyfnewid am arian parod; a
- metrigau gweithredol a thargedau perfformiad TGCh perthnasol yn unol â safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt.

**Cyfrifyddu ariannol**

A2 Erbyn mis Gorffennaf 2015, sicrhau bod memorandwm adran 33 o gyfrifon wedi'i gwblhau ac y caiff ei ddarparu bob blwyddyn i'w archwilio.

**Gweithio mewn partneriaeth**

A3 Erbyn mis Hydref 2015, sicrhau y caiff arfer da a arddangosir wrth reoli'r bartneriaeth TGCh a sicrhau rheolaeth ariannol drosti ei rannu gyda phartneriaethau eraill sy'n bodoli eisoes neu sy'n cael eu creu. Gellid cyflawni hyn drwy:

- ddatblygu safonau ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth; a
- datblygu hyfforddiant a chanllawiau i reolwyr partneriaethau (gan gynnwys rheoli ariannol, cynllunio busnes, rheoli perfformiad a rheoli risg).

**Ariannu arloesedd**

A4 Ceisio cyllid cenedlaethol ychwanegol lle y bo ar gael i ddatblygu a threialu datrysiadau TG arloesol ym maes iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol. Dylai'r partneriaid werthuso'r mentrau hyn ac, os byddant yn llwyddiannus:

- eu rhoi ar waith ledled Powys; a'u
- hyrwyddo ledled Cymru lle y byddai'n amlwg o fudd gwneud hynny.

**Rhoi system iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol integredig ar waith**

A5 Sicrhau bod cynlluniau gweithredu clir ar gyfer y system Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Cymru gyfan newydd Dylai hyn gynnwys:

- nodi'r cyfrifoldeb gweithredol cyffredinol am arwain y prosiect;
- dyrannu adnoddau staff TGCh a staff Gwasanaeth digonol i'r prosiect;
- cerrig milltir a chynlluniau clir y gellir eu cyflawni er mwyn paratoi, profi a throsglwyddo i'r system newydd; a
- threfniadau ar gyfer datblygu llwybrau a phrosesau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sy'n galluogi'r system i gefnogi'r model gwaith dymunol ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na sefyllfa lle bo'r system yn pennu/cyfyngu'r model gwaith ar gyfer y dyfodol.

# Atodiad 1

## Cynllun Gweithredu

| Tudalenn | Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Uwch Reolwyr | Blaenoriaeth (U/C) | Cytunwyd | Camau Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | A1 | Datblygu fframwaith perfformiad gwasanaeth TGCh diwygiedig er mwyn sicrhau y caiff y materion canlynol eu nodi, eu cofnodi, eu monitro ac y cyflwynir adroddiadau arnynt:<br>• cerrig milltir prosiectau a gyflawnir yn y tymor canolig;<br>• arbedion sy'n gysylltiedig â TGCh y gellir eu cyfnewid am arian parod; a<br>• metrigau gweithredol a thargedau perfformiad TGCh perthnasol yn unol â safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. | Allen Hart | U | Do | DPA diwygiedig ar gyfer y gwasanaeth, disgwylir i'r prosiectau a'r arbedion yn niffiniad Ch1 gael eu cwblhau ac i fod yn weithredol fel arfer fel rhan o Fwrdd y Bartneriaeth ar y Cyd erbyn CH2 2015/16. | Diwedd Medi 2015 |
| 9 | A2 | Sicrhau bod memorandwm adran 33 o gyfrifon wedi'i gwblhau ac y caiff ei ddarparu bob blwyddyn i'w archwilio. | Jane Thomas | C | Do | Blynyddoedd blaenorol i'w cwblhau erbyn Ch1 2015/16. Wedyn gweithredu fel arfer o 2015/16 fel rhan o'r broses cyfrifon flynyddol. | Gorffennaf 2015 |

| Tudalenn | Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Uwch Reolwyr | Blaenoriaeth (U/C) | Cytunwyd | Camau Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pawb | A3 | Sicrhau y caiff arfer da a arddangosir wrth reoli'r bartneriaeth TGCh a sicrhau rheolaeth ariannol drosti ei rannu gyda phartneriaethau eraill sy'n bodoli eisoes neu sy'n cael eu creu. Gellid cyflawni hyn drwy:<br>• ddatblygu safonau ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth; a<br>• datblygu hyfforddiant a chanllawiau i reolwyr partneriaethau (gan gynnwys rheoli ariannol, cynllunio busnes, rheoli perfformiad a rheoli risg). | Andrew Durant gan gefnogi rhaglen OPD Cynllun Powys yn Un | C | Do | Creu canllawiau / safonau a.33 – Ch1 2015/16.<br>Creu gallu hyfforddi ar gyfer a.33 - Ch2 2015/16. | Diwedd Medi 2015 |
| 13 | A4 | Ceisio cyllid cenedlaethol ychwanegol lle y bo ar gael i ddatblygu a threialu datrysiadau TG arloesol ym maes iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol. Dylai'r partneriaid werthuso'r mentrau hyn ac, os byddant yn llwyddiannus:<br>• eu rhoi ar waith ledled Powys; a'u<br>• hyrwyddo ledled Cymru lle y byddai'n amlwg o fudd gwneud hynny. | Andrew Durant | C | do | Mae rhaglen treialon technoleg Powys ddigidol yn dod at ddiwedd cam 2 a chynhelir adolygiad o arloesedd digidol erbyn mis Mehefin 2015. Rhagwelir yn y tymor byr i ganolig y caiff ceisiadau Arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol eu cysylltu â phrosiect CCIS.<br>Byddwn yn parhau i wneud ceisiadau am gyllid cenedlaethol drwy dimau arloesi Llywodraeth Cymru. | Mehefin 2015 ar gyfer canlyniadau'r adolygiad o'r rhaglen bresennol |

| Tudalenn | Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb Uwch Reolwyr | Blaenoriaeth (U/C) | Cytunwyd | Camau Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | A5 | Sicrhau bod cynlluniau gweithredu clir ar gyfer y system Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Cymru gyfan newydd Dylai hyn gynnwys:<br>• nodi'r cyfrifoldeb gweithredol cyffredinol am arwain y prosiect;<br>• dyrannu adnoddau staff TGCh a staff Gwasanaeth digonol i'r prosiect;<br>• cerrig milltir a chynlluniau clir y gellir eu cyflawni er mwyn paratoi, profi a throsglwyddo i'r system newydd; a<br>• threfniadau ar gyfer datblygu llwybrau a phrosesau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sy'n galluogi'r system i gefnogi'r model gwaith dymunol ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na sefyllfa lle bo'r system yn pennu/cyfyngu'r model gwaith ar gyfer y dyfodol. | Andrew Durant | U | Do | Mae Rhaglen genedlaethol CCIS wrthi'n cael ei diffinio.<br>Caiff prosiect ar y cyd Rhanbarthol Powys (Cyngor Sir Powys / Bwrdd Addysgu Iechyd Powys) ei gomisiynu yn ystod Ch1 2015/16 i gynnwys cyllid Prosiect ac adnoddau cyfunol. | Diwedd mis Mehefin 2015 ar gyfer prosiect CCIS wedi'i gomisiynu'n llawn ar gyfer CSP a BAIP |

# Atodiad 2

## Gwersi a ddysgwyd

**46.** Fel rhan o'n gwaith maes, gofynnwyd i gyfweleion am y gwersi a ddysgwyd ganddynt yn sgîl datblygu a chyflwyno trefniadau adran 33 a'r bartneriaeth TGCh. Nodir isod drosolwg o'r negeseuon a ddeilliodd o'r ymarfer hwn.

| Gwersi a ddysgwyd |
| --- |
| **Defnyddio adran 33 i liniaru risgiau i'r bartneriaeth**<br>• Mae adran 33 yn system dda ond ni chaiff ei defnyddio ddigon. Gallai fod gan y ddau bartner amheuon o ran ymrwymo i'r bartneriaeth, yn enwedig wrth gytuno ar ymrwymiad ariannol hefyd. Fodd bynnag, os caiff trefniant adran 33 ei ddatblygu'n briodol, mae'n darparu'r strwythur a'r ffurfioldeb sydd eu hangen i sicrhau y gellir lliniaru unrhyw bryderon allweddol. Roedd cynllun cytundeb adran 33 y bartneriaeth TGCh yn cynnwys digon o eglurder i sicrhau ei fod yn nodi ac yn rheoli'r risgiau.<br>• Nid oes opsiwn dim risg, ond mae adran 33 yn system dda ar gyfer dod â'r ddisgyblaeth ofynnol ynghyd i ymdopi â risgiau mewn ffordd ragweithiol a'u rheoli. |
| **Datblygu adran 33**<br>• Roedd yr amser a fuddsoddwyd yn y trefniadau adran 33 a'r cynllun TGCh yn werthfawr. Cymerodd y broses o ddatblygu adran 33 gryn amser, ond darparodd y trafodaethau, yr heriau a'r gwaith o ddatblygu atebion sail gadarn a disgyblaeth fusnes gadarn er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth TGCh yn effeithiol.<br>• Drwy ddefnyddio ymgynghorydd arbenigol allanol i helpu i ddatblygu a drafftio'r cytundeb adran 33, cafwyd profiad o bartneriaethau eraill a llwyddwyd i osgoi dull gweithredu plwyfol.<br>• Byddai mwy o gyfathrebu ar lefel genedlaethol ar y cychwyn wedi bod o fudd er mwyn i bartneriaid TG cenedlaethol, gan gynnwys NWIS, ddeall y trefniadau, y cyfleoedd a'r angen am fewnbwn, trefniadau datblygu ac ymrwymiad strategol cenedlaethol. |
| **Rhoi trefniadau TGCh ar waith**<br>• Dylai'r bartneriaeth TGCh fod wedi symud yn gyflymach ar y cychwyn. Er ei bod o fudd cymryd amser i ddatblygu'r cytundeb a'r cynllun A33 ffurfiol, unwaith y cytunwyd arnynt, cymerodd yn rhy hir i integreiddio staff a rhwydweithiau TGCh.<br>• Roedd cyfathrebu ac ymgysylltu â'r timau TGCh ac ar draws y timau TGCh yn bwysig er mwyn llwyddo, ac mae'n parhau felly.<br>• Mae defnyddio cronfeydd cyfunol wedi helpu i liniaru'r sefyllfa wario wirion ym mis Mawrth ac wedi helpu i sicrhau bod trefniadau caffael yn gyson ar draws blynyddoedd ariannol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk